Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Red House, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2023

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83504-373-8



© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 9

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 9
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 13
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 20

4. Y camau nesaf .......... 26

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 27

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 28

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 30

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Red House, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneirin Bevan ar 20 Ebrill 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a phedwar gan y staff.  Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Gwelsom fod y staff yn y practis yn trin y cleifion yn garedig a pharchus ac roeddent yn cynnwys y cleifion wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth deintyddol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cymryd camau i geisio help a chyngor addas ar roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn, gan nodi bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn' neu'n 'dda'
- Roedd y practis yn ymdrechu i drefnu apwyntiad i'r cleifion gael eu gweld yn ystod amser a oedd yn addas iddynt.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod safle'r practis mewn cyflwr da ac wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gweithredu i gynnal ymarferion tân rheolaidd yn y practis
- Mae angen adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig y practis mewn perthynas ag anghenion diogelu er mwyn iddynt adlewyrchu'r trefniadau presennol yng Nghymru
- Mae angen i'r practis roi system ffurfiol addas ar waith i leihau'r risg o achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

- Mae angen gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau AGIC mewn perthynas â gwella'r broses o gwblhau cofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle'r practis yn hygyrch, mewn cyflwr da ac wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel
- Roedd trefniadau da ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Roedd gan y practis ystafell ddihalogi ar wahân a chafodd y broses effeithiol ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol amldro ei disgrifio a'i dangos.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd rheolwr wedi'i benodi a chafodd llinellau adrodd clir eu disgrifio. Roedd adborth gan y staff yn gadarnhaol mewn perthynas â gweithrediad y practis.

Er y gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis y cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Achosion o ddiffyg cydymffurfio lle roedd angen gweithredu ar unwaith:

- Roedd yn ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gasglu'r wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau, y nodwyd gennym nad oeddent wedi'u cynnwys yn ffeiliau'r staff.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid datblygu cofrestr risgiau ysgrifenedig addas sy'n nodi'r risgiau i'r broses o weithredu'r practis yn effeithiol ac yn ddiogel a'r camau y cytunwyd arnynt er mwyn eu lliniaru
- Mae angen adolygu'r polisi recriwtio ysgrifenedig er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae'n rhaid iddynt fod ar gael mewn perthynas â'r staff sy'n gweithio yn y practis fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau
- Dylid rhoi dull mwy gweithredol ar waith i geisio adborth gan y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym y byddent yn argymell y practis fel lle da i weithio ynddo

- Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau
- Roedd y staff yn gallu cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w gwaith.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

## Adborth gan Gleifion

Nododd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *" O'r funud y cyrhaeddais yr adeilad, roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus ac fe wnaeth y staff sgwrsio â mi a rhoi croeso cynnes i mi. Hoffwn ddiolch i Tom a'r staff..."*

> *"Trefnus iawn a staff hyfryd."*

> *"Ffantastig gyda phlant. Maent yn tawelu'r meddwl ac yn darparu digon o wybodaeth bob amser."*

## Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r cleifion yn cael eu cyfeirio at wybodaeth sydd ar gael ar-lein.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei ddeall. Dywedwyd wrthym hefyd bod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gwelsom fod arwyddion clir yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle. Roedd hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn helpu i atal afiechyd a achosir gan fwg ail-law.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion a'r cynrychiolwyr â charedigrwydd a pharch.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd cleifion yn cael eu gweld gan ddeintyddion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom hefyd bod gwydr barugog yn y ffenestri yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau preifatrwydd.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. At hynny, dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur staff AGIC wrthym fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal.

Roedd desg y dderbynfa yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth siarad â nhw, gan gynnwys wrth gynnal sgyrsiau dros y ffôn.

Dywedwyd wrthym y gellid defnyddio'r deintyddfeydd neu'r swyddfa pe byddai'r cleifion yn dymuno cael sgwrs breifat â staff y practis.

Nid oedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld ar y safle. Mae Adran 6.6 o Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol yn nodi y dylid arddangos yr egwyddorion hyn mewn ardal lle y gellid eu gweld yn hwylus gan y cleifion.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i arddangos egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y practis, mewn ardal lle y gellid eu gweld yn hwylus gan y cleifion.**

**Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn**
Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, ynghyd â risgiau a buddiannau'r driniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym ei fod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth. At hynny, dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cleifion yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal.

## Amserol

**Gofal Amserol**
Dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion pe byddai unrhyw oedi cyn iddynt gael eu gweld yn eu hapwyntiad gyda'r deintydd neu weithiwr gofal deintyddol proffesiynol arall. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r cleifion yn cael cynnig aildrefnu eu hapwyntiad yn ôl eu dymuniad.

Lle roedd cleifion angen triniaeth ddeintyddol frys, dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cael ei drafod â'r deintydd a phan fo angen, byddai apwyntiad yn cael ei gynnig o fewn 24 awr fel rheol. Fel arall, byddai'r deintydd yn rhoi cyngor dros y ffôn. Dywedwyd wrthym hefyd y gellid gwneud trefniadau i weld cleifion y tu allan i amseroedd agor arferol y practis lle roedd yr angen i wneud hynny.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o du allan i'r safle. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan y cleifion pe byddai arnynt angen gofal a thriniaeth brys y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (8/9) wrthym eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' trefnu apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd yr ymatebydd arall wrthym ei fod yn ei chael hi'n 'gymharol hawdd' trefnu apwyntiad. At hynny, dywedodd y mwyafrif (7/9) wrthym y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedodd yr ymatebwyr eraill wrthym na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedwyd wrthym nad oes rhaid i'r cleifion aros yn hir rhwng pob apwyntiad triniaeth.

## Tegwch

**Cyfathrebu ac Iaith**
Dim ond yn Saesneg roedd y wybodaeth ysgrifenedig a oedd wedi'i harddangos yn y practis yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth ysgrifenedig am gostau triniaethau'r GIG ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y gost yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael triniaeth.

Cawsom wybod nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg. Lle bo angen, cawsom wybod bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r staff i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC mai Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn cael cyngor a chymorth i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn unol â safonau'r Gymraeg[1].

[1] https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-sylfaenol

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i geisio cyngor a chymorth addas er mwyn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.**

**Hawliau a Chydraddoldeb**
Gwelsom fod gofal a thriniaeth deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis bolisi cyfredol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd mynediad gwastad i'r practis, a oedd yn ei wneud yn hygyrch i gleifion. Roedd hefyd lleoedd parcio dynodedig ar gael y tu allan i'r safle ar gyfer cleifion â nam ar eu golwg. Roedd pob deintyddfa wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ynghyd â thoiled gyda chyfleusterau golchi dwylo, a oedd yn eu gwneud yn hygyrch i gleifion.

Gwelsom fod teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio ar y safle er mwyn cynyddu diogelwch. Roedd arwyddion i'w gweld a oedd yn hysbysu'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr fod y system teledu cylch cyfyng ar waith. Fodd bynnag, nid oedd polisi ysgrifenedig ar waith er mwyn nodi ei bod yn cael ei defnyddio.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatblygu a rhoi polisi ysgrifenedig addas ar waith i nodi'r defnydd o system teledu cylch cyfyng ar y safle.**

Cawsom enghreifftiau o sut yr oedd y practis yn symleiddio'r system apwyntiadau ar gyfer cleifion byddar.

Dywedwyd wrthym y gallai'r system apwyntiadau / cofnodion electronig gynnwys 'baner' er mwyn hysbysu'r staff o anghenion unigol a dewisiadau'r cleifion, megis sut yr hoffent i'r staff gyfeirio atynt.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Yn ogystal, dywedodd pob un wrthym fod y safle yn hygyrch.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Yn ddiogel

**Rheoli Risg**
Gwelsom fod y safle yn ôl pob golwg, mewn cyflwr da. Y tu mewn i'r safle, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel.

Roedd pob rhan o'r practis yr oedd yn bosibl i'r cleifion fynd iddynt yn rhydd o beryglon amlwg. Yn gyffredinol, nodwyd hyn hefyd am yr ardaloedd yr oedd yn bosibl i'r staff fynd iddynt. Fodd bynnag, roedd un o'r ystafelloedd yn cael ei defnyddio fel stordy ac nid oedd yn daclus. Cawsom wybod nad oedd angen i'r staff fynd i mewn i'r ystafell hon fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid gwneud trefniadau i dacluso'r ystafell hon ac i waredu ag eitemau nad sydd eu hangen ohoni fel rhan o systemau cadw tŷ da ac i leihau'r risg o anafiadau posibl i bersonau a all fod angen mynd i mewn i'r ystafell.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd asesiad risg COSHH addas ar waith ar gyfer pob sylwedd peryglus i iechyd.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dengys hyn fod trefniadau priodol ar waith mewn perthynas â diogelwch tân yn yr adeilad ac ni wnaed unrhyw argymhellion. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelwch tân ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe byddai tân. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith. Gwelsom fod profion ar gyfarpar diogelwch tân wedi'u cofnodi'n rheolaidd, ond dywedwyd wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi cynnal ymarferion tân. Er bod allanfeydd tân a chyfarwyddiadau i'w gweld yn glir, gall diffyg ymarferion tân roi'r staff a'r cleifion mewn risg pe byddai tân, gan nad yw'r gweithdrefnau gwagio'r adeilad wedi'u profi na'u hymarfer.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gynnal ymarferion tân rheolaidd (o leiaf un ymarfer tân y flwyddyn) a chofnodi'r canlyniadau.**

Gwnaethom gadarnhau bod y mwyafrif o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch wedi'i gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a nodwyd y camau gweithredu i liniaru'r risgiau a nodwyd. Roedd poster Iechyd a Diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld; fodd bynnag, nid oedd manylion cyswllt yr arweinydd er mwyn i'r staff gysylltu ag ef i

drafod materion iechyd a diogelwch wedi'u hychwanegu. Gwnaethom argymell y dylai'r wybodaeth hon gael ei hychwanegu at y poster.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant y cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus ar gael.

Roedd polisïau neu ddatganiadau ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas ag iechyd a diogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd. Er bod polisi wrth gefn mewn argyfwng ar waith, nid oedd y polisi hwn yn nodi'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn y practis yn sgil digwyddiadau fel tân, llifogydd neu os bydd y system yn methu.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatblygu polisi wrth gefn mewn argyfwng addas sy'n nodi'n glir y camau i'w cymryd a gan bwy, pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn y practis yn sgil digwyddiadau fel tân, llifogydd neu os bydd y system yn methu.**

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod amgylchedd y practis yn 'lân iawn'. Roeddent hefyd o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Gwelsom fod posteri wedi'u harddangos ger y sinciau golchi dwylo a oedd yn rhoi cyngor i'r staff a'r cleifion ar y weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo yn effeithiol. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio.

Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod trefniadau effeithiol ar waith yn y practis mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau. Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym hefyd bod PPE priodol ar gael a'u bod yn ei ddefnyddio.

Roedd ystafell ddihalogi dynodedig, wedi'i lleoli i ffwrdd o'r cyfleusterau clinigol, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol amldro yn effeithiol eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod y

cofnodlyfrau wedi'u cwblhau i ddangos bod gwiriadau priodol o'r cyfarpar dihalogi wedi'u cynnal.

Gwelsom fod y gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion priodol cyn iddo gael ei gasglu i'w gwaredu. Gwelsom hefyd fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

**Rheoli Meddyginiaethau**
Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a ddefnyddir yn y practis.

Gwelsom hefyd fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan gynnwys y meddyginiaethau a oedd angen eu cadw mewn oergell.

O fewn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod nodiadau wedi'u cynnwys o bryd y rhoddwyd a rhagnodwyd meddyginiaethau, megis anesthetig lleol, i'r cleifion.

Cawsom wybod y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu hadrodd i'r staff yn y practis gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Cawsom wybod y gallai cleifion wneud cais amdano.

Roedd cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael yn rhwydd yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd padiau penodol y diffibriliwr pediatrig i'w defnyddio gyda'r diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael. Pan roddwyd gwybod i uwch-aelodau o'r staff, cawsant eu harchebu ar unwaith. Cafodd y system ar gyfer gwirio'r rhain ac i nodi pan oedd angen meddyginiaethau newydd ei disgrifio. Gwelsom hefyd fod cofnodion gwiriadau wedi'u cwblhau, a'u bod yn cadarnhau bod pob meddyginiaeth o fewn ei dyddiad defnyddio.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym.

**Diogelu Plant ac Oedolion**
Gwelsom fod gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â diogelu. Fodd bynnag, roedd y rhain yn cyfeirio at ddogfennaeth a oedd bellach wedi dyddio. At hynny, roedd y canllawiau ategol yn cyfeirio at y trefniadau yn Lloegr yn hytrach

na'r trefniadau yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl na all y staff gael gafael ar y gweithdrefnau presennol i'w dilyn na'r canllawiau perthnasol. Gwnaethom argymell y dylai gweithdrefnau'r practis gyfeirio at y Gweithdrefnau Diogelu sy'n gyfredol yng Nghymru[2].

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i adolygu a diwygio gweithdrefnau diogelu a chanllawiau ategol y practis, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau presennol yng Nghymru.**

Fodd bynnag, gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a dywedwyd wrthym fod y staff yn wybodus am faterion diogelu.

Gwelsom fod rhestr gysylltiadau ar gyfer timau diogelu lleol ar gael a oedd yn golygu bod help a chyngor ar gael i'r staff pe bai ganddynt bryder diogelu.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal a thriniaeth deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Roedd archwiliadau pelydr-X yn cael eu cyflawni yn y practis. Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y profion gofynnol wedi'u cynnal ar y cyfarpar.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar perydr-X, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar y maes hwn a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'r cleifion ei darllen am y risgiau a'r buddiannau o gael archwiliad pelydr-X. Nid oedd unrhyw nodiadau yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom i ddangos bod y staff wedi esbonio'r rhain i'r cleifion. Roedd hyn yn golygu na allem gael sicrwydd bod y cleifion yn cael y wybodaeth hon fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Hwyrach yr hoffai'r person cofrestredig gyfeirio at adran 3 o'r Nodiadau Canllaw i Ymarferwyr Deintyddol ar Ddefnyddio'r Cyfarpar Pelydr-X yn Ddiogel[3] mewn perthynas â'r mater hwn.

---

[2] https://diogelu.cymru/cy/

[3] https://heiw.nhs.wales/files/dental-qi-tool-for-ionising-radiation/new-ionising-radiation-regulations/

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod cleifion wedi cael gwybod am y buddiannau a'r risgiau o gael archwiliad pelydr-X.**

## Yn effeithiol

**Gofal Effeithiol**
Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis. Gwelsom hefyd fod y staff yn ceisio cyngor proffesiynol perthnasol lle bo angen.

Dywedwyd wrthym fod triniaethau tynnu dannedd yn cael eu cynnal yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw restr wirio ffurfiol, megis y Rhestr Wirio Gofal y Geg Cyn Tynnu Dannedd[4], yn cael ei defnyddio. Byddai defnyddio rhestr wirio o'r fath yn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dannedd anghywir, o bosibl.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i roi system ffurfiol addas ar waith i leihau'r risg o dynnu'r dannedd anghywir.**

**Cofnodion y Cleifion**
Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol saith claf. Gwelsom fod system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn destun isafswm o gyfnod cadw ac roedd hyn yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, megis enw a dyddiad geni'r claf. At hynny, roedd y rheswm pam fod y cleifion yn mynychu'r practis a, lle y bo'n briodol, y symptomau a ddisgrifiwyd gan y cleifion wedi'u cofnodi. Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, cofnodion Archwiliad Periodontol Sylfaenol, archwiliad meinweoedd meddal, archwiliadau ychwanegol ac archwiliadau yn y geg a phrofion sgrinio am ganser hefyd. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod y cleifion wedi cael gwybodaeth am hybu iechyd y geg, lle y bo'n briodol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud os bydd haint / argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu.

Roedd y cofnodion hefyd yn dangos tystiolaeth o waith cynllunio triniaeth, gan gynnwys opsiynau, a chofnod o'r driniaeth a ddarparwyd. Gwelsom dystiolaeth o'r cleifion yn darparu cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi

---

[4] https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/deintyddol/gwella-ansawdd/tynnu-dant-anghywir-wte/

egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau.

Roedd apwyntiadau adalw wedi'u cofnodi a gwelsom fod hyn yn cydymffurfio â chanllawiau presennol NICE.

Lle roedd archwiliadau pelydr-X yn cael eu cynnal, gwelsom fod barn briodol wedi cael ei cheisio a bod canfyddiadau clinigol wedi cael eu cofnodi.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion. Nid oedd yr un o'r cofnodion yn cynnwys hanes deintyddol blaenorol y cleifion, nid oedd cofnod o hylendid y geg, deiet nac unrhyw gyngor a roddwyd i'r cleifion ac nid oedd yr un o'r cofnodion yn cynnwys dewis iaith y cleifion.

Er bod y cofnodion yn dangos bod hanes meddygol cychwynnol yn cael ei nodi gan y cleifion, nid yw'r ddogfen hon wedi'i llofnodi na'i dyddio gan y cleifion nac wedi'i chydlofnodi gan y deintydd. Roedd y cofnodion yn dangos bod y ddogfen hanes meddygol yn cael ei diweddaru yn ystod pob cwrs o driniaeth ond, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos ei bod yn cael ei diweddaru na'i gwirio (ar lafar) gan y deintydd yn ystod pob apwyntiad. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff yn gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Nid oedd cyfiawnhad dros gynnal archwiliad pelydr-X wedi'i gynnwys yn y cofnodion bob amser; nid oedd yr angen i gynnal archwiliad pelydr-X yn aml wedi'i gofnodi bob amser ac nid oedd graddau ansawdd y pelydrau-X yn cael eu cofnodi bob amser.

Nid oedd tystiolaeth bod y practis yn rhoi'r pecyn cymorth ‘Delivering Better Oral Health’ ar waith bob amser.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.**

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau ar y safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol y bwriedir eu darparu ac roedd prosesau ar waith ar gyfer gweithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cyfleusterau ar y safle yn briodol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu cwblhau yn electronig, sy'n sicrhau system effeithlon er mwyn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff y practis yn mynd ar drywydd yr atgyfeiriadau hynny yr ystyrir eu bod yn rhai brys, megis amheuaeth o ganser y geg, er mwyn sicrhau bod y cleifion wedi gallu trefnu apwyntiad.

Lle bo hynny'n bosibl, roedd y cleifion a oedd angen gofal a thriniaeth brys arnynt yn cael eu gweld yn y practis o fewn ei oriau agor arferol er mwyn atal cleifion rhag mynychu gwasanaethau y tu allan i oriau eu gofal brys.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan y staff a gwblhaodd holiadur AGIC ym mhob un o'r meysydd a ystyriwyd.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r practis yn le dymunol i weithio yn sgil y gwaith adnewyddu diweddar a'r tîm rwy'n gweithio ag ef."*

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Y prif ddeintydd oedd perchennog y practis ac ef oedd yn ei weithredu. Roedd rheolwr yn cael ei gyflogi a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Cafodd llinellau adrodd clir eu disgrifio.

Cafodd y trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff a chyfathrebu ad hoc â'r staff drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Gwelsom fod cofnodion o'r cyfarfodydd yn cael eu llunio. Roedd y rhain o gymorth er mwyn sicrhau bod yr aelodau o'r staff nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion a oedd yn ymwneud â gwaith.

Gwnaethom gadarnhau fod amrywiaeth o bolisïau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Roedd y sampl o'r polisïau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Er bod y datganiad o ddiben yn cynnwys dyddiad y bu iddo gael ei lunio a'i adolygu, nid oedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys y dyddiad y bu iddi gael ei hadolygu. Mae angen cynnwys hyn er mwyn dangos bod y ddogfen wedi cael ei hadolygu bob blwyddyn o leiaf, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gynnwys dyddiad y bu i'r daflen wybodaeth i gleifion gael ei hadolygu diwethaf.**

Dywedwyd wrthym fod risgiau i'r broses o weithredu'r practis yn ddiogel ac yn effeithlon yn cael eu nodi a'u blaenoriaethau, gan gytuno ar y camau i'w cymryd er

mwyn lliniaru'r rhain. Fodd bynnag, nid oedd cofrestr risgiau ysgrifenedig wedi'i llunio. Byddai hyn yn helpu i ffurfioli a dangos y broses rheoli risg.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatblygu cofrestr risgiau ysgrifenedig addas sy'n nodi'r risgiau i'r broses o weithredu'r practis yn ddiogel ac yn effeithiol a'r camau y cytunwyd arnynt i liniaru'r rhain.**

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis a petai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas, y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir yn y practis. At hynny, roedd pob aelod o'r staff yn argymell y practis fel lle da i weithio.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu yn y gwaith (o fewn y 12 mis diwethaf) a bod cyfleoedd yn y gweithle ar gael yn deg a chyfartal i bob aelod o'r staff.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ogystal â'r prif ddeintydd a'r rheolwr, roedd tîm y practis yn cynnwys deintydd cyswllt, hylenwyr, nyrsys deintyddol a derbynnydd. Dywedwyd wrthym nad oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Er bod enwau'r deintydd a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a oedd yn gweithio yn y practis wedi'u harddangos yn glir, nid oedd eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cynnwys. Mae Adran 6.6 o Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol yn nodi y dylid arddangos y rhain mewn ardal lle y gellid eu gweld yn hwylus gan y cleifion.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i arddangos rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer pob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis mewn ardal lle y gellid eu gweld yn hwylus gan y cleifion.**

Cawsom wybod bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol i gyflawni'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod y cymysgedd sgiliau yn y practis yn briodol.

At hynny, dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y practis yn cymryd camau cadarnhaol o ran materion iechyd a llesiant ac nad oedd eu swyddi, yn gyffredinol, yn niweidiol i'w hiechyd. Roedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r cymorth Iechyd Galwedigaethol a oedd ar gael iddynt.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol. Fodd bynnag, nid oedd y polisi hwn yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae angen iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practis deintyddol ac yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i adolygu a diwygio'r polisi recriwtio ysgrifenedig er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae angen iddynt fod ar gael mewn perthynas â'r staff sy'n gweithio yn y practis fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.**

Gwnaethom adolygu ffeiliau pum aelod o staff a oedd yn gweithio yn y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gyfredol a thystiolaeth (lle y bo'n ofynnol) o yswiriant indemniad, tystiolaeth o gofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystiolaeth o frechiadau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd ffeiliau dau aelod o'r staff yn cynnwys y wybodaeth/dogfennaeth arall sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses AGIC ar gyfer ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ar unwaith a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Cafodd system addas ei disgrifio ar gyfer cynnal gwiriadau parhaus o gofrestriad deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Fodd bynnag, nid oedd yr esiampl a welsom yn cynnwys llofnod na dyddiad i ddangos pryd y cwblhawyd yr elfennau gwahanol a gan bwy. Byddai cynnwys y wybodaeth hon yn dangos ymhellach pryd y bu i'r aelodau newydd o staff gwblhau eu cyfnodau sefydlu, eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a'r unigolyn sy'n gyfrifol am wirio bod y cyfnodau sefydlu wedi'u cwblhau yn gywir.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd er mwyn dangos pryd y cwblhawyd yr elfennau gwahanol o gyfnodau sefydlu'r staff a gan bwy.**

Gwelsom fod staff a oedd yn cael eu cyflogi gan y practis yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith, gyda chofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw ohono. Dywedodd y mwyafrif o'r staff (3/4) a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cawsom wybod hefyd bod yr aelodau hynny o staff nad oeddent yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y practis yn cael arfarniad blynyddol, ond ni wnaed cofnod o'r

rhain. Hwyrach yr hoffai'r personau cofrestredig ystyried rhoi cofnod addas ar waith yn hyn o beth er mwyn dangos bod arfarniad wedi cael ei gynnal.

O fewn y sampl o ffeiliau a adolygwyd gennym, gwelsom fod staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu swyddi.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Cafodd y trefniadau eu disgrifio ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio’r practis.

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion gwblhau holiadur ac roedd eu hadborth yn cael ei rannu â'r staff mewn cyfarfodydd tîm. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod adborth gan y cleifion yn cael ei gasglu. Fodd bynnag, nid oedd y sampl o gofnodion y cyfarfodydd tîm yn nodi bod yr adborth wedi cael ei rannu. Gwnaethom argymell y dylid dilyn agenda sefydlog mewn cyfarfodydd tîm o ran cynnwys adborth gan y cleifion er mwyn helpu i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â thîm y practis yn rheolaidd.

Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddilyn dull mwy gweithredol ar gyfer ceisio adborth er mwyn helpu i gynyddu nifer yr holiaduron a gaiff eu cwblhau a'u dychwelyd. Gwnaethom hefyd argymell y dylai'r practis roi system ar waith i ddangos y camau a gymerwyd gan y practis mewn ymateb i adborth y cleifion.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddilyn dull mwy gweithredol ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion a rhoi system addas ar waith er mwyn dangos y camau a gymerwyd gan y practis mewn ymateb i adborth y cleifion.**

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno gyfredol ar waith er mwyn rheoli cwynion am ofal a thriniaeth deintyddol y GIG a phreifat a ddarperir yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys manylion yr unigolyn cyswllt yn y practis a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymateb i gwynion.

Roedd gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn yr ystafell aros. Roeddem yn teimlo y gellid ychwanegu mwy o fanylion am y weithdrefn at y poster a gaiff ei arddangos. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth i'w gweld yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd, ac roedd copïau ohoni ar gael yn hwylus ar ddesg y dderbynfa. Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt am help

a chymorth wedi'u cynnwys fel rhan o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ac a oedd i'w gweld yn y daflen wybodaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (8/9) a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon / cwynion ar ôl triniaeth. Nid oedd yr ymatebydd arall yn teimlo bod y cwestiwn yn berthnasol iddo.

Gwnaethom argymell y dylai'r practis gael deunyddiau ysgrifenedig gan y bwrdd iechyd sy'n cynnwys gwybodaeth am y cynllun Gweithio i Wella i'w hychwanegu at y wybodaeth sydd eisoes ar gael.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gael deunyddiau ysgrifenedig ar y cynllun Gweithio i Wella i'w harddangos yn y practis.**

Er bod system ar waith ar gyfer cofnodi cwynion a wneir i'r practis, cawsom wybod nad oedd cwynion wedi dod i law.

Gwelsom fod gan y practis ganllawiau i'r staff ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd y ddogfen hon hefyd wedi'i chynnwys ym mholisi'r practis. Fodd bynnag, dylid datblygu polisi/datganiad lleol hefyd i'w ychwanegu at y ddogfen bresennol yn unol ag argymhellion Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd (2023). Gall hyn nodi'r trefniadau a'r gofynion lleol sydd wedi'u teilwra at y practis.

**Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatblygu a rhoi polisi lleol ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n nodi'r trefniadau a'r gofynion lleol sydd wedi'u teilwra at y practis.**

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn ymwybodol ac yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u rôl er mwyn bodloni'r ddyletswydd.

Pan ofynnwyd iddynt am y broses o roi gwybod am ddigwyddiadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a phryderon, dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y practis yn annog rhoi gwybod amdanynt a bod y practis yn cymryd camau i sicrhau na fydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd eto. Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym hefyd bod y practis yn trin y staff sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn deg, ac y rhoddir adborth iddynt am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r digwyddiadau.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwelsom fod systemau cyfathrebu perthnasol ar waith er mwyn helpu i gefnogi'r broses o weithredu'r practis.

Dywedwyd wrthym pe byddai digwyddiad yn ymwneud â diogelwch claf, byddai canllawiau yn cael eu ceisio er mwyn pennu a oes angen rhoi gwybod amdano a byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r bwrdd iechyd neu asiantaeth arall, megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cael hysbysiadau diogelwch cleifion gan y bwrdd iechyd, a lle y bo'n briodol, fe'u rhannwyd â thîm y practis.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a gafodd eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o gofnodion y cleifion, pelydrau-X, atal a rheoli heintiau a dihalogi (yn cydymffurfio â chanllawiau WHTM 01-05) a rhagnodi meddyginiaethau gwrthficrobaidd.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau'r adnodd datblygu practisau deintyddol, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth (MMD).

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**
Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer y broses o ymgysylltu rhwng y practis a gwasanaethau eraill.

Dywedwyd wrthym fod system atgyfeirio electronig yn cael ei defnyddio er mwyn atgyfeirio cleifion a gaiff eu gweld yn y practis, gan gynnwys y rhai hynny y mae angen eu hatgyfeirio ar frys at wasanaethau gofal iechyd eilaidd. Dywedwyd wrthym hefyd y gallai'r fferyllwyr gysylltu â'r practis i drafod a chadarnhau presgripsiynau a roddir gan y deintydd. At hynny, gallai'r staff yn y practis gysylltu â thimau diogelu lleol i drafod atgyfeiriadau diogelu a materion cysylltiedig.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
| --- | --- | --- | --- |
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith a oedd angen eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad.** | - | - | - |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Red House

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gasglu'r wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau mewn perthynas â'r staff [a nodwyd] a chadarnhau i AGIC eu bod yn 'addas' i weithio yn y practis deintyddol preifat. Mae'n ofynnol i'r wybodaeth a'r ddogfennaeth hyn fod ar gael ar gyfer eu harolygu gan AGIC ar gais.**<br><br>**At hynny, rhaid i AGIC gael manylion am y camau a gymerwyd i sicrhau y bydd y wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y** | Rheoliad 18(1), (2)(e) – Addasrwydd gweithwyr<br><br>Atodlen 3 - Yr Wybodaeth sy'n Ofynnol mewn Cysylltiad â Phersonau sy'n Ceisio Cynnal, Rheoli neu Weithio mewn Practis Deintyddol Preifat | Bydd yr wybodaeth a gafodd ei hepgor o'n cofnodion fel yr amlinellir yn yr hysbysiad diffyg cydymffurfio yn cael ei chasglu. Rydym eisoes wedi gofyn i aelodau o'r staff gasglu geirdaon, gydag un eisoes wedi'i gyflwyno ac rydym yn disgwyl cael mwy yn y dyddiau nesaf. Rwy'n tybio y byddai'n bosibl cwblhau'r dasg hon o fewn pythefnos.<br><br>O ran bob cyflogai ar gyfer y dyfodol, bydd yr wybodaeth a amlinellir yn yr hysbysiad diffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn rhestr wirio cyn cyflogaeth a fydd yn cael ei chwblhau | Rebekah Jenkins | Disgwylir y bydd wedi ei gwblhau mewn perthynas neu lai, ond dylid nodi ein bod yn dibynnu ar bobl eraill nad oes gennym reolaeth drostynt i ymateb er mwyn darparu geirdaon. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoliadau mewn perthynas â'r staff sy'n dechrau gweithio yn y practis deintyddol preifat, neu ar ei ran, ar gael yn y dyfodol.** | | cyn iddynt ymgymryd ag unrhyw ymrwymiadau pellach. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

| | |
|---|---|
| **Enw (priflythrennau):** | **Tom Wysome** |
| **Teitl swydd:** | **Unigolyn cyfrifol, Pennaeth y Practis** |
| **Dyddiad:** | **02/05/2023** |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Red House

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i arddangos egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y practis, mewn ardal lle y gellid eu gweld yn hwylus gan y cleifion.** | Rheoliad 19 – Canllawiau ar gyfer deintyddion a phroffesiynolion gofal deintyddol | Mae'r rhain i'w gweld ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i geisio cyngor a chymorth er mwyn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.** | Safon - Tegwch | Mae poster gwybodaeth wedi'i osod yn yr ystafell aros sy'n rhoi gwybod i'r cleifion y gallant wneud cais am y deunyddiau yn Gymraeg os dymunant, a'n bod wrthi'n sicrhau ein bod yn rhoi'r | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 'cynnig rhagweithiol' ar waith lle bynnag y bo'n bosibl. | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatblygu a rhoi polisi ysgrifenedig addas ar waith i nodi'r defnydd o system teledu cylch cyfyng ar y safle.** | Rheoliad 8(1)(f) - Polisïau a gweithdrefnau | Mae polisi wedi'i lunio ac mae pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen a'i ddeall. Bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gynnal ymarferion tân rheolaidd (o leiaf un ymarfer tân y flwyddyn) a chofnodi'r canlyniadau.** | Rheoliad 22(4)(d) - Addasrwydd mangreoedd | Mae ymarfer tân wedi cael ei gynnal ers yr arolygiad. Bydd ymarferion tân bellach yn cael eu cynnal bob blwyddyn, o leiaf. | Rebekah Jenkins / Thomas Wysome | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatblygu polisi wrth gefn mewn argyfwng addas sy'n nodi'n glir y camau i'w cymryd a gan bwy, pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn y practis yn sgil digwyddiadau fel tân,** | Rheoliad 8(1)(o) - Polisïau a gweithdrefnau | Mae Cynllun Wrth Gefn llawn a cynhwysfawr wedi'i roi ar waith sy'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y camau i'w cymryd pe byddai'r digwyddiadau a restrir yn mynd rhagddynt. | Thomas Wysome/Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **llifogydd neu os bydd y system yn methu.** | | | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i adolygu a diwygio gweithdrefnau diogelu a chanllawiau ategol y practis, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau presennol yng Nghymru.** | Rheoliad 14(1)(a), (e) a 14(2) – Diogelu cleifion | Mae'r holl ganllawiau sydd ar gael i'r staff wedi'u diweddaru ar sail y wybodaeth sydd ar gael i ni ar wefan GIG Cymru, yn benodol i Ofal Sylfaenol.<br><br>Mae polisi'r practis hefyd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau – mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o hyn, maent wedi darllen a deall y polisi ac wedi argymell llwybrau atgyfeirio.<br><br>Bydd hwn yn cael ei adolygu a'i diweddaru'n flynyddol, yn unol â hynny. | Rebekah Jenkins/Sarah Howell | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod cleifion wedi cael gwybod am y buddiannau a'r risgiau o gael archwiliad pelydr-X.** | Rheoliad 13(9)(a) – Ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir | Mae poster wedi'i osod yn yr ystafell aros sy'n amlinellu buddiannau a risgiau cael archwiliad radiograffau deintyddol. Bydd deintyddion yn parhau i roi cyngor ar lafar cyn ceisio cydsyniad y cleifion wrth | Rebekah Jenkins/pob deintydd | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | i'r archwiliad radiograff gael ei gynnal. | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i roi system ffurfiol addas ar waith i leihau'r risg o dynnu'r dannedd anghywir.** | Rheoliad 13(8) - Ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir | Mae angen i'r deintydd sy'n trin gwblhau rhestr wirio cyn tynnu dannedd (yn cael ei chyflenwi gan Ofal Sylfaenol GIG Cymru) wrth gwblhau'r broses o dynnu'r dannedd.<br><br>Bydd pob rhagofal arall sydd eisoes yn cael ei ddilyn yn cael ei gwblhau fel yr arfer. | Thomas Wysome/pob deintydd | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.** | Rheoliad 20 (1) - Cofnodion | Mae rhestr wirio ar gael yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau bod nodiadau cleifion yn cael eu cwblhau i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys y meysydd y bu i AGIC nodi nad oeddent ar gael yn rhai o nodiadau'r cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>- Hylendid y geg a deiet a'r cyngor a roddwyd<br>- Dewis iaith y cleifion | Thomas Wysome/pob deintydd | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | - Llofnodi a dyddio'r hanesion meddygol a diweddaru unrhyw newidiadau yn electronig<br>- Cyfiawnhad dros wneud radiograff, ei amlder a'i ansawdd<br><br>Tystiolaeth bod y pecyn cymorth "Delivering Better Oral Health" yn cael ei gynnwys | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gynnwys dyddiad y bu i'r daflen wybodaeth i gleifion gael ei hadolygu diwethaf.** | Rheoliad 7 - Adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion | Mae'r dyddiad wedi'i ychwanegu i ddangos y dyddiad y bu i'r daflen wybodaeth i gleifion gael ei hadolygu. Gan ei bod yn cael ei hadolygu'n flynyddol, bydd y dyddiad yn cael ei ddiwygio a bydd taflenni newydd yn cael eu hargraffu. | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatblygu cofrestr risgiau ysgrifenedig addas sy'n nodi'r risgiau i'r broses o weithredu'r practis yn ddiogel ac yn effeithiol** | Rheoliad 8(e) - Polisïau a gweithdrefnau | Mae asesiad risg amgylcheddol llawn ar waith a chaiff ei ddiweddaru bob chwe mis. Mae'r broses o weithredu'r practis yn ddiogel ac yn effeithiol wedi'i chynnwys yn ogystal â chamau i liniaru unrhyw risgiau. Mae'r | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **a'r camau y cytunwyd arnynt i liniaru'r rhain.** | | asesiadau risg ar gael i bob aelod o'r staff a chânt y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ganfyddiadau newydd neu newidiadau. | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i arddangos rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer pob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis mewn ardal lle y gellid eu gweld yn hwylus gan y cleifion.** | Rheolaid 13(8) - Ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir | Mae dogfen sy'n dangos pob aelod o'r staff sy'n meddu ar gofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld ym mynedfa'r practis. | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i adolygu a diwygio'r polisi recriwtio ysgrifenedig er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae angen iddynt fod ar gael mewn perthynas â'r staff sy'n gweithio yn y practis fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau** | Rheoliad 8(1)(i) - Polisïau a gweithdrefnau<br><br>Rheoliad 18(2)(e) - Addasrwydd gweithwyr<br><br>Atodlen 3 - Yr Wybodaeth sy'n | Mae polisi recriwtio'r practis wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys y newidiadau a nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae copi llawn o'r rheoliadau i'w gael yn y ffeil i aelodau'r staff eu darllen. | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.** | Ofynnol mewn Cysylltiad â Phersonau sy'n Ceisio Cynnal, Rheoli neu Weithio mewn Practis Deintyddol Preifat | | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd er mwyn dangos pryd y cwblhawyd yr elfennau gwahanol o gyfnodau sefydlu'r staff a gan bwy.** | Rheoliad 17(3)(a) - Staffio | Gan ddibynnu ar y swydd, mae'r rôl yn dibynnu ar y broses sefydlu a gaiff ei dilyn.<br><br>Mae pob elfen o'r broses sefydlu bellach wedi'i diweddaru er mwyn gallu dangos pryd y bu iddi gael ei chwblhau a phwy gynhaliodd y cyfnod sefydlu. | Thomas Wysome/Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddilyn dull mwy gweithredol ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion a rhoi system addas ar waith er mwyn dangos y camau a** | Rheoliad 16 (2)(c) – Asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys | Gofynnwyd i staff y dderbynfa roi gwybod i bob claf lle gallant gael gafael ar y ffurflenni adborth, pe baent yn dymuno cwblhau un ohonynt.<br><br>Rydym wrthi'n llunio gwefan newydd a bydd y gweithgarwch | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **gymerwyd gan y practis mewn ymateb i adborth y cleifion.** | ffurflenni blynyddol | hwn ar gael i'w gwblhau yma pe byddai'r cleifion yn dymuno rhoi adborth yn eu hamser eu hunain, yn electronig. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wefan i roi gwybod i'r cleifion sut rydym wedi gweithredu ar eu hadborth. Bydd hwn hefyd ar gael ar ein cyfryngau cymdeithasol wedi iddynt gael eu lansio.<br><br>Ar gyfer y cleifion nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, bydd poster i'w weld yn yr ystafell aros yn cynnwys gwybodaeth am y broses o roi adborth y cleifion ar waith. | | |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gael deunyddiau ysgrifenedig ar y cynllun Gweithio i Wella i'w harddangos yn y practis.** | Safon - Diwylliant | Mae e-bost wedi'i anfon at y tîm Gweithio i Wella er mwyn cael gafael ar y deunydd mwyaf cyfredol i'w arddangos yn yr ystafell aros. | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |
| **Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i** | Safon - Diwylliant | Mae ein polisi Dylestwydd Gonestrwydd wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys | Rebekah Jenkins | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ddatblygu a rhoi polisi lleol ar waith mewn perthynas â'r Dylestwydd Gonestrwydd sy'n nodi'r trefniadau a'r gofynion lleol sydd wedi'u teilwra at y practis.** | | gwybodaeth fwy penodol a manwl i weddu ein practis. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** **Rebekah Jenkins**

**Teitl swydd:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **05/06/2023**